# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-07-08)

**Dyddiad: 10 Ebrill 2008**
**Amser: 13:00 – 15:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Wendy Davies, Cyfarwyddwr Golwg ar Ynni Cymru
David Walter, Pennaeth Cynigion a Phrisio Ynni, Centrica plc
Phil Biddle, Pennaeth Effeithlonrwydd Ynni, e.on UK
Richard Westoby, Pennaeth Prisio a Rhagolygon, Scottish and Southern Energy
Ann Loughrey, Pennaeth Cyfrifoldebau Corfforaethol, Scottish Power
Guy Johnson, Cyfarwyddwr Rheoleiddio, RWE npower

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lesley Griffiths.

### Eitem 2: Tlodi tanwydd yng Nghymru

### Papur: SC(3)-07-08 (p1)
### Papur: SC(3)-07-08 (p1) Atodiad A

2.1Croesawodd y Cadeirydd Wendy Davies, Cyfarwyddwr Golwg ar Ynni Cymru, i'r cyfarfod a'i gwahodd i gyflwyno'i thystiolaeth ysgrifenedig. Holwyd y tyst gan yr Aelodau.

### Eitem 3: Tlodi tanwydd yng Nghymru

### Papur: SC(3)-07-08 (p1) Atodiadau B - F

3.1Croesawyd David Walter o Centrica plc, Phil Biddle o e.on UK, Richard Westoby o Scottish and Southern Energy, Ann Loughrey o Scottish Power, a Guy Johnson o RWE npower i'r cyfarfod gan y Llywydd ac fe'i gwahoddwyd i gyflwyno eu tystiolaeth ysgrifenedig. Holwyd y tystion gan yr Aelodau.

Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth yn egluro'n union faint y mae pob cwmni yn ei wario ar dlodi tanwydd a thrwy ba ffynonellau.

Cytunodd Anne Loughrey i ddarparu gwybodaeth am nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru, ac i gadarnhau os yw cwsmeriaid yng Nghymru'n llai tebygol o newid eu cyflenwyr ynni ac os ydynt yn talu fwy am eu hynni na chwsmeriaid o lefydd eraill ym Mhrydain.

Cytunodd Phil Biddle i ddarparu gwybodaeth am dariff gymdeithasol e.on UK a chytunodd Guy Johnson i ddarparu gwybodaeth yn egluro pam fod tariff cymdeithasol RWE npower yn uwch na thariffau isaf y cwmni.

### Eitem 4: Tlodi tanwydd yng Nghymru

### Papur: SC(3)-07-08 (p2)
### Papur: SC(3)-07-08 (p2) Atodiad A

4.1Cytunodd y pwyllgor i nodi papur gan EDF Energy ar dlodi tanwydd yng Nghymru.